



department for
**culture, media
and sport**

Ymgynghoriad ynghylch cynigion i ddiwygio trefniadau llywodraethu S4C

1/02/2012

improving
the quality
of life for all

Ein nod yw gwella ansawdd bywyd i bawb trwy gyfrwng gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon, cynorthwyo'r ymdrech i sicrhau rhagoriaeth, a hyrwyddo'r diwydiannau creadigol, twristiaeth a hamdden.

Cynnwys

[Tudalen 4: Trosolwg](#)

[Tudalen 6: Cwmpas yr ymgynghoriad](#)

[Tudalen 7: Amseru](#)

[Tudalen 7: Asesiad o'r Effaith](#)

[Tudalen 7: Sut i ymateb](#)

[Tudalen 8: Cyfrinachedd a diogelu data](#)

[Tudalen 8: Monitro a gwerthuso](#)

[Tudalen 8: Cwestiynau ymgynghori](#)

[Tudalen 10: Atodiad A- Crynodeb o sefyllfa S4C o ran llywodraethu ac atebolrwydd](#)

[Tudalen 13: Atodiad B- Adran 3 y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus](#)

[Tudalen 14: Atodiad C- Adran 10 y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus](#)

Trosolwg

Mae Sianel Pedwar Cymru ("S4C") yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus wedi'i gyfansoddi dan Ddeddf Darlledu 1990 a Deddf Cyfathrebu 2003, ac mae ganddynt rwymedigaeth statudol i ddarparu gwasanaethau teledu o ansawdd uchel ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn bennaf neu'n gyfan gwbl, ac i sicrhau bod cyfran sylweddol o'r rhaglenni a ddarlledir ar S4C yn rhaglenni Cymraeg.

Mae system llywodraethu corfforaethol bresennol S4C yn cynnwys Awdurdod S4C a'r Tîm Rheoli. Mae Awdurdod S4C yn gyfrifol am ddarparu cyfeiriad strategol a goruchwyliaeth o fewn y fframwaith a bennwyd gan Ddeddfau Darlledu 1990 a 1996 a Deddf Cyfathrebu 2003. Mae'r Tîm Rheoli yn goruchwyllo'r gwaith o redeg S4C o ddydd i ddydd, gan gynnwys y rôl reoli, y rôl gomisiynu a'r rôl olygyddol.

Ariannir S4C gan y Llywodraeth yn unol â fformwla a bennwyd yn adran 61 Deddf Darlledu 1990, y mae'n gynydd Mynegai Prisiau Manwerthu (MPM) cronus o fis Tachwedd 1996 tan fis Tachwedd yn y flwyddyn gyfredol. Yng nghyd-destun yr hinsawdd ariannol bresennol, nid yw'r trefniant ariannu hwn yn gynaliadwy. Adeg Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010 felly, bu'r Llywodraeth yn ystyried amrywiol opsiynau i sicrhau bod y trefniant o ariannu S4C yn fwy hyblyg ac yn unol â'r cyfyngiadau ehangach ar wariant, gan sicrhau cydbwysedd gofalus gyda'r angen i sicrhau bod S4C yn parhau i gael cyllid digonol er mwyn ei galluogi i gyflawni ei dyletswyddau statudol.

Mae'r Llywodraeth yn dymuno sicrhau bod y sianel yn cynnig y gwasanaeth gorau posibl yn Gymraeg i'w chynulleidfa, ac mae'n teimlo mai'r ffordd orau o sicrhau ei dyfodol wrth ddarparu gwell gwasanaeth yw trwy gyfrwng partneriaeth gyda'r BBC.

Bu S4C, y BBC a'r Llywodraeth yn trafod y ffordd orau o symud trefniadau'r bartneriaeth yn eu blaen, ar sail yr egwyddor sylfaenol o sicrhau bod S4C yn cadw gafael ar ei hunaniaeth fel brand, ei hannibyniaeth olygyddol ac o ran ei rheolaeth, a bod y gwasanaeth yn parhau i ddiwallu anghenion y gynulleidfa.

Mewn Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig ar 14 Hydref 2010, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon y cynnig i gael gwared ar y cyswllt ariannu gydag MPM ar gyfer S4C.

Yn ogystal, ym mis Hydref 2010, cytunodd y BBC ar setliad ar gyfer ffi'r drwydded gyda'r Llywodraeth tan fis Mawrth 2017. Mae amodau'r setliad, ymhlith pethau eraill, yn cynnwys y BBC yn cytuno i ffurfio partneriaeth a model ariannu newydd gydag S4C.

Datblygwyd y newid i Ddeddf Darlledu 1990 yn Neddf Cyrff Cyhoeddus 2011, a sicrhodd Gydsyniad Brenhinol ar 14 Rhagfyr 2011. Bydd y darpariaethau perthnasol yn y Ddeddf yn dod i rym ar 14 Chwefror 2012.

Ar 15 Medi 2011, gosodwyd cytundeb i ddiwygio Cytundeb Fframwaith 2006 rhwng y BBC a'r Ysgrifennydd Gwladol gerbron y Senedd. Mae hwn yn darparu, ymhlith pethau eraill, y bydd gwasanaethau S4C yn cael eu trefnu a'u hariannu fel partneriaeth rhwng S4C a'r BBC o 1 Ebrill 2013.

Cyhoeddodd y Llywodraeth yn setliad ffi'r drwydded ac yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ym mis Hydref 2010 y byddai'r BBC yn darparu £76.3m i S4C yn 2013/14 a £76m yn 2014/15, gyda'r Llywodraeth yn darparu £6.7m yn 2013/14 a £7m yn 2014/15. Ar 24 Hydref 2011, penderfynodd Ymddiriedolaeth y BBC y byddai, yn unol â chytundeb ynghylch llywodraethu ac atebolrwydd, yn darparu'r symiau pellach canlynol o ffi'r drwydded i S4C: £75.25m yn 2015/16 a £74.5m yn 2016/17.

Ar 25 Hydref 2011, cyhoeddodd S4C a'r BBC eu bod wedi dod i gytundeb ynghylch sefyllfa ariannu, trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd S4C tan 2017.

Mae'r elfennau allweddol y cytunwyd arnynt yn cynnwys¹:

- Awdurdod S4C wedi ei adlunio fydd corff llywodraethu S4C.
- Penodir cadeirydd yr Awdurdod gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unig, trwy ddilyn proses ar gyfer penodiadau cyhoeddus.
- Dewisir aelodau eraill yr Awdurdod trwy gyfrwng proses ar gyfer penodiadau cyhoeddus, a bydd hyn yn cynnwys panel a fydd yn cynnwys: cynrychiolaeth o Ymddiriedolaeth y BBC, S4C, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a Llywodraeth Cymru.
- Gall aelod Ymddiriedolaeth y BBC dros Gymru fod yn un o'r aelodau, yn ôl dymuniad yr Ymddiriedolaeth.
- Bydd holl aelodau'r Awdurdod yn cytuno y bydd Cytundeb Gweithredu S4C a chylch gwaith statudol S4C yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus fel rhan o amodau eu penodiad.
- Y Cytundeb Gweithredu fydd y ddogfen atebolrwydd allweddol rhwng Ymddiriedolaeth y BBC ac S4C.
- Datblygir y Cytundeb Gweithredu ar y cyd mewn partneriaeth ag S4C, a bydd hyn yn cynnwys gweithgarwch ymgynghori gyda'r cyhoedd/y gynulleidfa.
- Bydd Prif Weithredwr S4C yn cadeirio bwrdd rheoli S4C a fydd yn cynnwys swyddogion gweithredol S4C yn unig. Ni fydd y bwrdd rheoli yn cynnwys unrhyw aelodau o'r BBC.

Yn ogystal, bydd rhwymedigaeth statudol bresennol y BBC i gyflenwi gwerth o leiaf 10 awr o raglenni yr wythnos i S4C, yn parhau. Cyhoeddwyd y trefniadau diweddaraf gan S4C² ac Ymddiriedolaeth y BBC³ ar 11 Ionawr 2011.

¹ Mae modd gweld y sefyllfa lawn trwy droi at:
http://www.s4c.co.uk/production/downloads/S4C_governance_position_summary.pdf

Croesawyd y cytundeb hwn gan DCMS. Dywedodd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Cyfathrebu a'r Diwydiannau Creadigol: "Mae'r trefniadau partneriaeth arfaethedig yn ganlyniad gwych i ddarlledu Cymraeg. Nid yn unig y maent yn sicrhau annibyniaeth olygyddol a rheoli S4C, ond maent hefyd yn cynnig lefel o sicrwydd ariannol dros y bum mlynedd nesaf sy'n galonddid mawr. Rydw i'n hyderus bod hyn yn cynnig y sefydlogrwydd a'r sicrwydd y mae angen i S4C ei gael er mwyn ei galluogi i fynd o nerth i nerth dan ei chadeirydd a'i phrif weithredwr newydd." Mae DCMS yn parhau i gredu hyn ac mae'n cymeradwyo'r trefniadau llywodraethu ac ariannol y mae S4C a'r BBC wedi cytuno arnynt yn fawr iawn.

Atodiadau

Mae Atodiad A yn nodi sefyllfa S4C, y BBC a'r Llywodraeth ynghylch atebolrwydd a threfniadau llywodraethu S4C. Cyhoeddir hwn ar wefannau Ymddiriedolaeth y BBC ac S4C.

Mae Atodiadau B ac C yn nodi manylion Adrannau 3 a 10 Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Mae Adran 3 yn amlinellu'r Grym sydd gan y Gweinidog i addasu trefniadau cyfansoddiadol ac mae Adran 10 yn nodi bod yn rhaid i'r Gweinidog sy'n bwriadu gwneud gorchymyn dan adrannau 1 i 5 ymgynghori.

Cwmpas yr ymgynghoriad hwn

Mae Adran 10 Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn mynnu bod Gweinidogion yn ymgynghori ynghylch cynigion yn ymwneud â newidiadau deddfwriaethol sy'n effeithio ar y cyrff a restrir yn atodlenni 1-5, ac mae S4C yn un o'r cyrff cyhoeddus a restrir yn atodlen 3. Mae'r newidiadau deddfwriaethol sy'n ofynnol er mwyn gweithredu'r trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer S4C yn ymwneud â chyfansoddiad aelodau'r Panel Dethol a'r trefniadau gweithredol gyda chyrff cyllido. Yn ystod trafodaethau Seneddol ynghylch Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 ac yn Natganiad Gweinidogol Ysgrifenedig y Llywodraeth ar 11 Gorffennaf 2011, gwnaeth y Gweinidogion ymrwymiad i ymgynghori hefyd. Mae'r cyfansoddiad hwn, gyda'r ymgynghoriad y mae'r BBC yn bwriadu ei gynnal ynghylch y cytundeb gweithredu gydag S4C, yn bodloni gofynion y Ddeddf ac mae'n cyflawni ymrwymadau Gweinidogion.

Er ein bod yn gwerthfawrogi y gallai ymatebwyr ddymuno gwneud sylwadau am y trefniadau ynghylch llywodraethu ac atebolrwydd a gytunwyd rhwng y BBC ac S4C (yn Atodiad A), dylid nodi bod yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar y newidiadau deddfwriaethol sy'n angenrheidiol i weithredu'r newidiadau hyn cyn mis Ebrill 2013. Felly, mae'r cwestiynau ymgynghori ar dudalen 9 wedi'u cyfyngu i'r meysydd hynny a restrir uchod.

Yn ogystal, mae'r trefniadau cyllido newydd ar gyfer S4C y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn, gan eu bod wedi eu nodi fel rhan o broses yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010 ac fe'u haddaswyd gan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Bydd y darpariaethau i ddiwygio Deddf Darlledu 1990 yn dod i rym ar 14 Chwefror

² http://www.s4c.co.uk/e_press_level2.shtml?id=446

³ http://www.bbc.co.uk/bbctrust/news/press_releases/january/s4c_partnership.shtml

2012. Yn yr un modd, mae'r cyllid a gytunwyd gan y BBC ac S4C ar gyfer 2015-16 a 2016-17 y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn hefyd.

Rydym yn awgrymu y dylid cyfeirio ymatebion i'r ymgynghoriad, y maent yn cynnig safbwyntiau ynghylch y trefniadau llywodraethu a gytunwyd rhwng S4C a'r BBC ac y maent y tu hwnt i'r materion penodol ar dudalen 9, at Ymddiriedolaeth y BBC ac S4C yn uniongyrchol. Deallwn bod Ymddiriedolaeth y BBC yn bwriadu ymgynghori ynghylch y Cytundeb Gweithredu newydd ar gyfer S4C maes o law.

Amseru

Os bydd y Llywodraeth yn parhau i fod o blaid cyflwyno gorchymyn drafft yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bwriadwn osod y gorchymyn drafft gerbron y Senedd mewn pryd iddo ddod i rym erbyn mis Hydref 2012, yn amodol i gytundeb y Senedd.

Asesiad o'r Effaith

Gan na fydd y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar fusnesau neu ar gymdeithas sifil, ni pharatowyd Asesiad o'r Effaith ar gyfer yr ymgynghoriad hwn.

Sut i ymateb

Wrth ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu a ydych yn cynrychioli safbwyntiau sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech nodi'n eglur y sawl y mae'r sefydliad yn eu cynrychioli a phan fo hynny'n berthnasol, sut y casglwyd safbwyntiau'r aelodau. Y dyddiad cau i gyflwyno ymatebion yw **dydd Gwener 4 Mai 2012**.

Anfonwch ymatebion ar ffurf llythyr neu neges e-bost at:

S4C Governance Consultation

Public Service Broadcasting Team

4th Floor

Department for Culture Media & Sport (DCMS)

2-4 Cockspur Street

Llundain

SW1Y 5DH

Ffôn: 020 7211 6014

Ffacs: 020 7211 6339

E-bost: s4cgovernance@culture.gsi.gov.uk

Cyfrinachedd a Diogelu Data

Gallai gwybodaeth a ddarparir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, fod yn destun cyhoeddiad neu ddatganiad i bartïon eraill neu ddatgeliad yn unol â chyfundrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf, y rhain yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Os ydych yn dymuno i wybodaeth y byddwch yn ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, gan gynnwys data personol, dylech fod yn ymwybodol o'r ffaith bod Cod Ymarfer statudol yn bodoli dan FOIA, y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac y mae'n delio gyda rhwymedigaethau cyfrinachedd, ymhlith pethau eraill.

O ystyried hyn, byddai o gymorth pe bai modd i chi esbonio i ni pam eich bod o'r farn bod yr wybodaeth yr ydych chi wedi ei darparu yn wybodaeth gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn gynnig sicrwydd y bydd modd cynnal cyfrinachedd ym mhob sefyllfa. Ni ystyrir bod ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG ynddo'i hun yn rhwymol ar yr Adran.

Mae DCMS yn bwriadu rhannu'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gyda'r BBC ac S4C.

Monitro, Gwerthuso a Gweithredu

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, byddwn yn cyhoeddi ymateb y Llywodraeth i'r ddogfen ymgynghori hon cyn gynted ag y bo modd ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad, yn ddibynnol ar gyfanswm yr ymatebion, ond cyn pen tri mis fan bellaf. Gosodir copi ar wefan DCMS.

Cwestiynau Ymgynghori

Awdurdod S4C

Y mater dan ystyriaeth yw cyfansoddiad aelodau'r Panel Dethol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn penodi aelodau Awdurdod S4C ar sail argymhellion y Panel Dethol. Mae'n werth nodi bod yr holl benodiadau cyhoeddus yn cael eu rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, a bydd yn rhaid i'r broses benodi gydymffurfio ag amodau'r Cod Ymarfer sydd mewn grym ar yr adeg y caiff y penodiad ei wneud. Fel y nodwyd uchod yn adran y 'Trosolwg', mae'r Llywodraeth wedi croesawu'r cytundeb rhwng y BBC ac S4C ynghylch y trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer S4C, gan gynnwys y cytundeb y gall Aelod Ymddiriedolaeth y BBC dros Gymru fod yn un o aelodau Awdurdod S4C. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gofyn am unrhyw newid deddfwriaethol.

Cwestiynau ynghylch y newidiadau arfaethedig i Awdurdod S4C

- 1) Caiff Paneli Dethol eu sefydlu ar gyfer pob penodiad unigol ac ar hyn o bryd maent yn cynnwys: Cadeirydd y Panel Dethol (uwch-swyddog o DCMS), Cadeirydd S4C, Aseswr Penodiadau Cyhoeddus Annibynnol a swyddog o Lywodraeth Cymru. Dan bartneriaeth y BBC / S4C, cytunwyd y bydd gan y BBC rôl wrth ddethol aelodau'r Awdurdod. A ydych yn cytuno y dylai'r Panel Dethol gynnwys cynrychiolydd o unrhyw gorff sy'n darparu cyllid ar gyfer S4C?
- 2) A ddylid ystyried unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r Awdurdod wedi ei adlunio arfaethedig ar gyfer S4C?

Trefniadau gweithredol rhwng S4C a'r sawl sy'n gwneud taliadau

Mewnosododd y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus adran 61 (2)(1) newydd yn Neddf Darlledu 1990 ac mae'n grymuso'r Ysgrifennydd Gwladol i ariannu S4C naill ai trwy wneud taliadau ei hun neu ymrwymo i gytundeb gydag unigolyn arall i'r unigolyn hwnnw wneud hynny (neu'r ddau).

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ymrwymo i drefniant gyda'r BBC i ariannu S4C yn ystod 2013-2017. Bydd Ymddiriedolaeth y BBC yn ymrwymo i gytundeb gweithredu gydag S4C, yn nodi cwrpas y gwasanaeth ac yn darparu ar gyfer gwaith monitro ac adrodd. Y cytundeb gweithredu hwn fydd y ddogfen atebolrwydd allweddol rhwng Awdurdod newydd S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC. Bydd Ymddiriedolaeth y BBC ac S4C yn adrodd yn gyhoeddus bob blwyddyn am gyflawniad S4C yn ei erbyn. Datblygir y cytundeb gweithredu ar y cyd mewn partneriaeth gydag S4C, a bydd hyn yn cynnwys gweithgarwch ymgynghori cyhoeddus.

Cwestiwn am y cytundeb gweithredu

- 3) Mae'r Ddeddf Cyrff Cyhoeddus yn gosod adran 61 (2) (1) newydd yn Neddf Darlledu 1990 ac mae'n grymuso'r Ysgrifennydd Gwladol i ariannu S4C naill ai trwy wneud taliadau ei hun neu ymrwymo i gytundeb gydag unigolyn/unigolion eraill i'r unigolyn hwnnw wneud hynny (neu'r ddau). A ydych chi yn cytuno y dylai fod yn ofyniad statudol bod unrhyw unigolyn / corff y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymrwymo i gytundeb yn y dyfodol gyda nhw i ariannu S4C, yn meddu ar gytundeb gweithredu gydag S4C?

**ATEBOLRWYDD A LLYWODRAETHU S4C
CRYNODEB O'R SEFYLLFA**

Ar gyfer y cyfnod pan fydd S4C yn cael ei hariannu gan ffi'r drwydded ar y cyfan, rydym yn cytuno ar y sefyllfa ganlynol o ran llywodraethu, atebolrwydd a chyllido. Mae'r sefyllfa hon yn ddibynnol ar dderbyniad llwyddiannus y Mesur Cyrff Cyhoeddus.

Bwrdd llywodraethu: Awdurdod S4C

- Awdurdod S4C ar ei newydd wedd fydd corff llywodraethu S4C.
- Dylai'r Awdurdod gynnwys naw (9) aelod, gan gynnwys y Cadeirydd.
- Penodir cadeirydd yr Awdurdod gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unig, trwy ddilyn proses ar gyfer penodiadau cyhoeddus.
- Dewisir aelodau eraill yr Awdurdod trwy gyfrwng proses ar gyfer penodiadau cyhoeddus, yn cynnwys panel a fydd yn cynnwys: cynrychiolaeth o Ymddiriedolaeth y BBC, S4C, DCMS a Llywodraeth Cymru.
- Gall aelod Ymddiriedolaeth y BBC dros Gymru fod yn un o'r aelodau, yn ôl dymuniad yr Ymddiriedolaeth.
- Bydd holl aelodau'r Awdurdod yn cytuno y bydd Cytundeb Gweithredu S4C a chylch gwaith statudol S4C yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus fel rhan o amodau eu penodiad.
- Dylid cytuno ar drefniadau pontio cyn darparu cyllid ffi'r drwydded (e.e. er mwyn dewis aelodau newydd a phenodi Ymddiriedolwr y BBC).

Cytundeb Gweithredu

- Y Cytundeb Gweithredu fydd y ddogfen atebolrwydd allweddol rhwng Ymddiriedolaeth y BBC ac S4C.
- Datblygir y Cytundeb Gweithredu ar y cyd mewn partneriaeth ag S4C, a bydd hyn yn cynnwys gweithgarwch ymgynghori gyda'r cyhoedd/y gynulleidfa. Os na cheir cytundeb yn ystod proses o gydweithio, sy'n annhebygol o ddigwydd, mae Ymddiriedolaeth y BBC yn cadw'r hawl i bennu darpariaethau terfynol y Cytundeb cyn trosglwyddo cyllid i S4C. Bydd y Cytundeb Gweithredu yn parhau nes bydd cyfnod Siarter y BBC yn dod i ben.
- Bydd y Cytundeb Gweithredu yn nodi cwmplas y gwasanaeth i'w ariannu gan ffi'r drwydded, bydd yn cynnwys gofyniad i osod targed ynghylch arbedion effeithlonrwydd i'w cyflawni yng ngweithredoedd S4C, bydd yn pennu'r targedau perfformio a'r gofynion ynghylch atebolrwydd, a bydd yn cyd-fynd gyda chylch gwaith statudol S4C.
- Bydd yn sicrhau annibyniaeth olygyddol a rheoli gwasanaeth S4C

⁴ Mae modd gweld yr wybodaeth hon ar wefannau Ymddiriedolaeth y BBC ac S4C:
http://www.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/our_work/s4c_governance/s4c_governance.pdf
http://www.s4c.co.uk/production/downloads/S4C_governance_position_summary.pdf

- Bydd Ymddiriedolaeth y BBC yn cynnal asesiad perfformiad blynyddol, gan fesur perfformiad yn erbyn amodau'r Cytundeb Gweithredu, a bydd modd i'r cyhoedd weld yr asesiad hwn.
- Os bydd Ymddiriedolaeth y BBC o'r farn rhesymol nad yw amodau'r Cytundeb Gweithredu yn cael eu cyflawni, ceir darpariaethau a fydd yn mynnu bod Ymddiriedolaeth y BBC yn rhoi amser i S4C unioni'r mater. Yn ogystal, ceir cymal ynghylch datrys anghydfodau, a fydd yn darparu ar gyfer trafodaeth rhwng y cadeiryddion priodol. Bydd modd i Ymddiriedolaeth y BBC, mewn cyfyngder, i leihau'r cyllid neu ei dynnu yn ôl os bydd y darpariaethau hyn wedi eu dilyn, heb gynnig datrysiaid boddhaol ac os bydd yr Ymddiriedolaeth o'r farn rhesymol nad yw amodau'r Cytundeb Gweithredu yn cael eu cyflawni o hyd. Bydd unrhyw benderfyniad i wneud hyn yn cael ei wneud mewn ffordd agored a thryloyw.
- Bydd y rhaglenni presennol a ddarparir gan y BBC i S4C yn parhau i gael eu llywodraethu gan gytundeb ar wahân.
- Ni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn barti yn y Cytundeb Gweithredu, fodd bynnag, nodir ei ddyletswydd i sicrhau cyllid digonol ar gyfer S4C er mwyn iddi allu cyflawni ei dyletswyddau gwasanaeth cyhoeddus dan y Ddeddf Cyrrff Cyhoeddus.

Strwythur rheoli S4C

- Bydd Prif Weithredwr S4C yn cadeirio bwrdd rheoli S4C a bydd hwn yn cynnwys swyddogion gweithredol S4C yn unig. Ni fydd y bwrdd rheoli yn cynnwys unrhyw aelodau o'r BBC.
- Bydd y Cytundeb Gweithredu yn mynnu bod cyfarfodydd chwarterol ar y cyd yn cael eu cynnal rhwng bwrdd rheoli S4C a bwrdd rheoli BBC Cymru, er mwyn goruchwyllo'r cynnydd sy'n cael ei sicrhau o ran arbedion effeithlonrwydd, a bydd bwrdd partneriaeth ar y cyd yn canolbwyntio ar y cyflawni. Cadeirydd y grŵp hwn fydd Prif Swyddog Gweithredol S4C a Chyfarwyddwr BBC Cymru am yn ail.
- Bydd y bwrdd partneriaeth ar y cyd yn sicrhau cydweithio agosach rhwng S4C a'r BBC, gan gyfrannu at y targedau effeithlonrwydd a bennwyd yn y Cytundeb Gweithredu, yn ogystal â thargedau effeithlonrwydd BBC Cymru. Byddai unrhyw arbedion y byddai S4C yn eu gwneud trwy gyfrwng cydweithio o'r fath yn cael eu hail-fuddsoddi mewn cynnwys ar gyfer S4C.

Cyllido

- Mae Ymddiriedolaeth y BBC wedi cadarnhau, yn unol â chytundeb terfynol ynghylch llywodraethu ac atebolrwydd fel y nodir uchod, y bydd yn darparu'r symiau canlynol o ffi'r drwydded i S4C: yn 2013/14, £76.3m; yn 2014/15, £76m; yn 2015/16 £75.25m; yn 2016/17 £74.5m.
- Bydd y cyllid ar gyfer S4C yn y dyfodol yn dod o dair ffynhonnell: ffi'r drwydded, cymorth grant Llywodraeth Ei Mawrhydi, ac incwm masnachol.

Atebolrwydd

- Bydd yr atebolrwydd dros ffi'r drwydded i Ymddiriedolaeth y BBC.
- Bydd yr atebolrwydd dros y cymorth grant i'r Senedd.
- Bydd Awdurdod S4C yn creu un set o gyfrifon blynyddol, a gyflwynir i Ymddiriedolaeth y BBC yn gyntaf, ac yna, i'r Ysgrifennydd Gwladol, a fydd yn eu cyflwyno i'r Senedd. Bydd Ymddiriedolaeth y BBC yn darparu datganiad eglurhaol i'w gynnwys yn yr adroddiad cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol/y Senedd. Cyhoeddir yr adroddiad.
- Bydd S4C yn cadw gafael ar ei rhyddid masnachol a bydd gweithgareddau masnachol S4C yn parhau i weithredu yn unol â'r fframwaith statudol.
- Bydd mynediad NAO i ffi'r drwydded sy'n cael ei gwario ar wasanaeth S4C, yn digwydd yn yr un ffordd ag y bydd yn cael ei ddarparu i unrhyw wasanaeth arall a ariannir gan ffi'r drwydded, h.y. trwy gyfrwng Ymddiriedolaeth y BBC.
- Bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gyflawni ei rôl fel gwarcheidwad refeniw ffi'r drwydded, a ddiffinnir yn y Siarter.

CYTUNWYD RHWNG YMDDIRIEDOLAETH Y BBC AC AWDURDOD S4C

25 Hydref 2011

Atodiad B

Adran 3 Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011: Y grym i addasu trefniadau cyfansoddiadol

(1) Mae modd i Weinidog wneud gorchymyn er mwyn addasu trefniadau cyfansoddiadol corff neu swydd a nodir yn Atodlen 3.

(2) Yn y Ddeddf hon, mae cyfeiriadau at drefniadau cyfansoddiadol corff yn cynnwys materion sy'n ymwneud gydag—

- (a) enw'r corff;
- (b) cadeirydd y corff (gan gynnwys cymwysterau a gweithdrefnau ar gyfer penodi a swyddogaethau);
- (c) aelodau'r corff (gan gynnwys nifer yr aelodau, cymwysterau a gweithdrefnau ar gyfer penodi a swyddogaethau);
- (d) cyflogeion y corff yn cyflawni swyddogaethau ar ei ran (gan gynnwys cymwysterau a gweithdrefnau ar gyfer penodi a swyddogaethau);
- (e) pwerau'r corff i gyflogi staff;
- (f) gweithdrefnau a threfniadau llywodraethu (gan gynnwys rôl ac aelodaeth pwyllgorau ac is-bwyllgorau);
- (g) adroddiadau a chyfrifon;
- (h) y graddau y mae'r corff yn atebol i Weinidogion;
- (i) y graddau y mae'r corff yn cyflawni swyddogaethau ar ran y Goron.

(3) Yn y Ddeddf hon, mae cyfeiriadau at drefniadau cyfansoddiadol swydd yn cynnwys materion sy'n ymwneud gydag—

- (a) enw'r swydd;
- (b) penodiad deiliad y swydd (gan gynnwys cymwysterau a gweithdrefnau ar gyfer penodi);
- (c) pwerau deiliad y swydd i gyflogi staff;
- (d) adroddiadau a chyfrifon;
- (e) y graddau y mae deiliad y swydd yn atebol i Weinidogion;
- (f) y graddau y mae deiliad y swydd yn cyflawni swyddogaethau ar ran y Goron.

Atodiad C

Adran 10 Deddf Cyrrff Cyhoeddus 2011: Ymgynghoriad

1) Rhaid i Weinidog sy'n bwriadu gwneud gorchymyn dan adrannau 1 i 5 ymgynghori gyda'r canlynol—

- (a) y corff neu ddeiliad y swydd y mae'r cynnig yn ymwneud ag ef,
- (b) unigolion eraill y mae'n ymddangos i'r Gweinidog eu bod yn cynrychioli buddiannau y mae'r cynnig yn effeithio arnynt mewn ffordd sylweddol,
- (c) Gweinidogion yr Alban, os bydd y cynnig yn ymwneud ag unrhyw fater y mae'n berthnasol i'r Alban neu'n ymwneud gyda hi, y mae Gweinidogion yr Alban yn cyflawni swyddogaethau mewn perthynas ag ef (a phan na fydd angen sicrhau caniatâd Senedd yr Alban dan adran 9),
- (d) adran yng Ngogledd Iwerddon, os bydd y cynnig yn ymwneud ag unrhyw fater y mae'n berthnasol i Ogledd Iwerddon neu'n ymwneud gyda hi, y mae'r adran yn cyflawni swyddogaethau mewn perthynas ag ef (a phan na fydd angen sicrhau caniatâd Cynulliad Gogledd Iwerddon dan adran 9),
- (e) Gweinidogion Cymru, os bydd y cynnig yn ymwneud ag unrhyw fater y mae'n berthnasol i Gymru neu'n ymwneud gyda hi, y mae Gweinidogion Cymru yn cyflawni swyddogaethau mewn perthynas ag ef (a phan na fydd angen sicrhau caniatâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru dan adran 9),
- (f) pan fo'r swyddogaethau sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig yn ymwneud gyda gweinyddiad cyfiawnder, yr Arglwydd Brif Ustus, ac
- (g) unigolion eraill y maent yn unigolion priodol ym marn y Gweinidog.

(2) O ganlyniad i weithgarwch ymgynghori dan isadran (1), os bydd yn ymddangos i'r Gweinidog ei bod yn briodol newid y cynnig neu ran ohono, rhaid i'r Gweinidog gynnal gwaith ymgynghori pellach priodol o'r fath ynghylch y newidiadau.

(3) Mae'n amherthnasol at ddibenion yr adran hon a yw gweithgarwch ymgynghori yn cael ei gynnal cyn neu ar ôl i'r adran hon gychwyn.